



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Prestwood - 21

Caernarfon

Dyddiad Cyhoeddi

13 Mai 2019

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparwr y gwasanaeth ar gyfer 21 Ffordd Garnedd yw Prestwood Care Homes Ltd. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i roi gofal personol i ddau oedolyn rhwng 18 oed a 64 oed ag anableddau dysgu a/neu anghenion gofal sy'n ymwneud â'u hiechyd meddwl (swyddogaethol). Mae'r cartref gofal wedi'i leoli yn y Marina yn Y Felinheli. Mae gan y gwasanaeth unigolyn cyfrifol dynodedig, ac mae'r rheolwr wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu hannog i fod yn annibynnol a gallant ddewis y mathau o weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt. Mae'r tîm o staff yn deall eu dewisiadau personol ac yn defnyddio technegau cefnogi ymddygiad cadarnhaol wrth ddarparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r staff yn cynnwys y bobl mewn sgysiau ac yn eu trin â pharch. Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael ac mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn cael eu nodi mewn cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg. Mae'r amgylchedd yn lân, mewn cyflwr da ac wedi'i bersonoli a cheir cynlluniau i ailaddurno'r lle maes o law. Mae gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau ac mae'r staff yn cael hyfforddiant ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae angen cwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal.

2. Gwelliannau

Mae'r gwasanaeth wedi elwa ar nifer fawr o welliannau i'r amgylchedd ac agweddau ar yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Trafodir y rhain yn yr adroddiad.

3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein gofynion a'n hargymhellion er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys:

Mae angen gwneud gwelliant mewn perthynas â'r canlynol er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 yn llawn:

- Ansawdd y Gofal.

Gwnaed y gwelliannau canlynol er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach:

- Adolygu asesiadau risg.
- Cofnodi canlyniadau cyfarfodydd adolygu a chadw tystiolaeth ohonynt.
- Rheoli meddyginiaethau.
- Cofnodi tymereddau bwyd.
- Cofnodi tymereddau'r oergell a'r rhewgell.
- Goleuadau argyfwng.
- Sicrhau bod y staff yn cwblhau modiwlau hyfforddi e-ddysgu.

- Goruchwylio ac arfarnu staff.
- Monitro lefelau staffio.

1. Llesiant

Crynodeb

Gall y bobl sy'n byw yn y cartref ddewis y math o weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt a chânt eu hannog i gynnal eu hannibyniaeth. Caiff eu dewisiadau eu deall ac mae'r staff yn trin y bobl â pharch. Defnyddir dulliau cefnogi ymddygiad cadarnhaol a gall y bobl fynegi eu barn ac unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cyson yn Gymraeg.

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Daeth hi'n amlwg mewn trafodaethau â pherson a oedd yn byw yn y cartref, ei fod wedi cymryd rhan a chael profiad o amrywiaeth o weithgareddau o'i ddewis ers iddo fyw yno. Dywedodd wrthym fod ganddo amserlen ar gyfer y rhaglen wythnosol o weithgareddau yr oedd yn ei chwblhau gyda'r staff. Dywedodd ei bod yn cynnwys gweithgareddau o'i ddewis a oedd o ddiddordeb personol penodol iddo. Gwelsom ei bod yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn annog ac yn hybu ei annibyniaeth a'i lesiant corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl. Roedd enghreifftiau'n cynnwys ymweliadau wythnosol â'r gampfa, nofio, cerdded, defnyddio byrddau tonio, teithiau siopa, cyswllt ffôn ac ymweliadau â'i deulu ddwywaith y flwyddyn a chyswllt misol â therapydd y cwmni. Dywedodd person a oedd yn byw yn y cartref wrthym ei fod yn hapus â'i amserlen ar gyfer y rhaglen weithgareddau, gan ddatgan fod ganddo "*enough things to do here*". Dywedodd wrthym ei fod yn cael ei annog i fod yn annibynnol ac yn arfer sgiliau byw bob dydd gan gynnwys glanhau, coginio a "*doing my own washing*". Dywedodd hefyd fod yn rhaid i'r staff ei annog a'i atgoffa i gael ei hun "*ready for the day*" ac i ofalu am ei hylendid personol o ddydd i ddydd. Roedd cofnodion gofal y person yn dangos os a phan oedd hyn wedi'i gyflawni. Cydnabu person a oedd yn byw yn y cartref hefyd nad oedd bob amser am wneud y gweithgaredd a gynlluniwyd ac y byddai'n "*change my mind*", gan ddweud "*it's my own choice*". Cadarnhawyd hyn gan y staff ac fe'i gwelsom drosom ein hunain yn ystod ein hymweliadau. Roedd cofnodion dyddiol yn dangos bod y person yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a'i fod yn rhannu car y gwasanaeth gyda phobl eraill a oedd yn byw mewn cartrefi cyfagos a oedd yn berchen i'r cwmni. Dywedodd y person fod hyn yn gallu "*be a nuisance*" ond dywedodd hefyd "*I don't mind sharing*" ac nad oedd yn ei atal rhag mynd i leoedd o ddiddordeb. Caiff y bobl eu hannog i fod yn iach, yn annibynnol ac mor weithgar ag y dewisant fod.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu cefnogi gan staff sy'n eu cynnwys mewn sgysiau ac yn deall eu hanghenion. Dywedodd person a oedd yn byw yn y cartref, "*I like the staff I've got now*" gan eu disgrifio fel "*nice*". Dywedodd wrthym fod y staff "*listen to me*" a dywedodd os nad oedd yn cyd-dynnu ag aelod o'r staff, ei fod yn gallu dweud wrth y rheolwr neu Seicolegydd y cwmni. Yn ystod ein harsylwadau, gwelsom fod y staff yn trin y person â pharch a charedigrwydd. Roeddent yn dawel ac yn amyneddgar wrth ymdrin ag ef ac yn defnyddio technegau cefnogi ymddygiad cadarnhaol i annog a helpu'r person i arfer ei sgiliau byw bob dydd ac atal ei ymddygiad rhag gwaethygu o bosibl. Gwelsom fod y staff yn defnyddio hiwmor mewn modd priodol wrth gyfathrebu ac ymgysylltu â'r person. Roedd y staff yn gwneud ymdrech i gael sgysiau gyda'r person ac roedd trafodaethau â'r staff yn

dangos eu bod yn ymwybodol o ddewisiadau'r person o ran ei hoff bethau a'i gas bethau. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu trin â pharch, ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff

Gall y bobl sy'n byw yn y cartref fynegi eu barn a'u safbwyntiau. Dywedodd person a oedd yn byw yn y cartref wrthym nad oedd ganddo unrhyw bryderon ar y pryd a'i fod yn gwybod â phwy i siarad os oedd am wneud cwyn. Dywedodd ei fod cyn hyn wedi dweud wrth y staff a'r rheolwr ei fod yn anhapus am y lefelau staffio. Dywedodd y person wrthym fod y rheolwr yn gwrando arno ac yn "*changes things*". Dywedodd wrthym hefyd ei fod wedi cael cymorth eiriolaeth cyn hyn, gan nodi y bu'n brofiad cadarnhaol. Dywedodd y byddai'n defnyddio'r cymorth eto, a chysylltodd y rheolwr â'r gwasanaeth ar ei ran yn ystod ein hymweliad. Gwelsom hefyd fod y person yn gallu mynegi ei farn drwy ddefnyddio dogfen 'canmoliaeth, cwynion a sylwadau' hawdd ei darllen y gwasanaeth. Gwelsom fod polisïau chwythu'r chwiban, diogelu a chwynion y gwasanaeth wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r prosesau ac y byddent yn rhoi gwybod i'r rheolwr neu uwch reolwyr am unrhyw bryderon. Mae prosesau ar waith i'r bobl sy'n byw yn y cartref fynegi eu pryderon a gallant ddefnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol.

Caiff hunaniaeth a diwylliant unigol y bobl eu parchu. Ar hyn o bryd, o gyfanswm o 15 o aelodau o'r staff a gyflogir, gall chwech ohonynt siarad Cymraeg. Gall unrhyw aelod o'r staff gael ei roi i weithio yn y cartref i helpu i gyflenwi ar gyfer sifftiau. Ar y ddau ddiwrnod arolygu, gwelsom ddau aelod o staff Cymraeg eu hiaith yn darparu cymorth yn y cartref. Dywedodd y rheolwr wrthym pe byddai cais yn dod i law i gael aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i gefnogi pobl sy'n byw yn y cartref, y byddai hyn yn cael ei ystyried. Roedd rota'r staff yn dangos nad oedd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn y cartref bob dydd, a chadarnhawyd hyn gan y rheolwr. Dywedodd y rheolwr wrthym hefyd fod datganiad o ddiben y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg ac y gallent gyfieithu dogfennau, megis cynlluniau cymorth unigol y bobl ac asesiadau risg pe byddai cais i wneud hyn. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith, ac mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cyson yn Gymraeg.

2. Gofal a Chymorth

Crynodeb

Caiff dewisiadau personol y bobl eu deall ac maent yn hapus â'r gofal a'r cymorth a gânt, sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r bobl yn cyfrannu at y broses o gynllunio'r gofal ac maent yn gallu defnyddio amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol allanol, a gwasanaethau mewnol arbenigol y cwmni. Mae angen gwneud gwelliannau o ran sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu monitro ac yn cynnwys gwybodaeth benodol, dogfennu adolygiadau amlddisgyblaethol a chydlofnodi siartiau meddyginiaeth.

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar y person a chaiff eu dewisiadau eu parchu. Gwnaethom edrych ar ffeil gofal un person a gweld ei bod yn cynnwys manylion hanesyddol am ei brofiadau bywyd cyn iddo ddod i fyw yn y cartref. Roedd y ffeil hefyd yn cynnwys gwaith papur amrywiol yn ymwneud â'i anghenion gofal a chymorth ar ffurf cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg. Er na allai gofio holl fanylion ei gynllun cymorth unigol, dywedodd y person wrthym ei fod yn cyfrannu at y broses o gynllunio'i ofal. Dywedodd ei fod wedi darllen y cynlluniau a'u llofnodi, ei fod yn "happy" â chynnwys y cynlluniau a bod y staff yn ei gefnogi yn unol â chyfarwyddyd y cynlluniau. Dywedodd wrthym fod ei gynlluniau cymorth unigol yn cynnwys ei ddewisiadau o ran ei weithgareddau byw bob dydd ac annog ei annibyniaeth. Yn ystod ein harsylwadau, gwelsom fod y staff yn darparu cymorth yn unol â chynnwys y cynlluniau gofal a'r wybodaeth a rannwyd gan y person. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth yn y ffordd a ddymunant.

Caiff anghenion gofal a chymorth y bobl eu hymgorffori yn eu cynlluniau cymorth unigol a'u hasesiadau risg. Gwnaethom edrych ar gynlluniau cymorth unigol un person a gwelsom eu bod yn nodi'r dyddiadau y llofnododd y person ei gynlluniau. Dywedodd y rheolwr a'r staff wrthym fod cynlluniau cymorth unigol y person yn cael eu newid neu eu diweddarau pryd bynnag yr oedd anghenion gofal a chymorth y person yn newid. Gwelsom fod y cynlluniau cymorth unigol a'r asesiadau risg wedi'u hadolygu ar yr un pryd ac roedd llofnod aelod o'r staff yn dangos pryd roedd wedi darllen y wybodaeth. Ni welsom dystiolaeth bod cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg y person wedi cael eu hadolygu ers mis Hydref 2018. Gwelsom hefyd nad oedd gwybodaeth am un risg sylweddol wedi'i chynnwys mewn asesiad risg. Awgrymai hyn nad oedd y staff yn cael gwybodaeth gyson a chywir am y risg a nodwyd. Trafodwyd hyn â'r rheolwr a ddywedodd wrthym ei fod yn bwriadu adolygu cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg y person. Cawsom gadarnhad cyn cwblhau'r adroddiad hwn ei fod wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol. Er gwaethaf hyn, gwelsom fod angen gwneud gwelliant o ran monitro asesiadau risg mewn ffordd gyson er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth fanwl i'r staff eu dilyn. Mae anghenion gofal a chymorth a risgiau'r bobl wedi'u nodi. Fodd bynnag, mae angen bod yn fwy gwyliadwrus a gwneud mwy o waith monitro er mwyn sicrhau bod pob asesiad risg yn cynnwys manylion penodol a chanllawiau i'r staff eu dilyn er mwyn lleihau'r risgiau a nodir cymaint â phosibl.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn gallu defnyddio gwasanaethau proffesiynol. Roedd dystiolaeth ysgrifenedig yn ffeil gofal un o'r bobl yn dangos ei fod wedi bod mewn cysylltiad â Seicolegydd a Therapydd Cefnogi Ymddygiad y cwmni yn ôl yr angen, yn ogystal ag amryw wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gwelsom fod cyfarfodydd adolygu gyda

gweithwyr gwasanaethau iechyd wedi'u cofnodi a bod y wybodaeth ar gael i'r staff ei gweld unrhyw bryd. Dywedodd person a oedd yn byw yn y cartref wrthym ei fod yn adolygu ei feddyginiaeth ragnodedig gyda'i feddyg teulu a'i seicolegydd ymgynghorol a nododd ei fod wedi cael gwybod am sgil-ffeithiau posibl y feddyginiaeth. Dywedodd ei fod yn cael "good care" gan y staff, a nododd fod y staff yn ei gefnogi i fynd i'w apwyntiadau. Gwelsom gofnodion o'r nodiadau dyddiol a oruchwyliwyd gan y rheolwr, a dywedodd y staff eu bod yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd yn ystod y trosglwyddiadau dyddiol. Gwelsom fod angen gwneud gwelliant wrth ddogfennu a chofnodi pryd roedd adolygiadau amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal gyda'r gwasanaethau comisiynu. Dywedodd person a oedd yn byw yn y cartref, y staff a'r rheolwr wrthym fod yr adolygiadau'n cael eu cynnal drwy gyfrwng galwadau ffôn a chawsom wybod am ganlyniadau'r cyfarfodydd. Serch hyn, nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig yn dogfennu pryd y cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn, yr hyn a drafodwyd nac arwyddocâd y canlyniadau. Ni welsom fod hyn wedi effeithio ar lesiant y bobl nac ar y gofal a'r cymorth maent yn eu cael. Deallir a rhagwelir anghenion iechyd unigol y bobl, a hynny am eu bod yn gallu cael cyngor, gofal a chymorth gan wasanaethau proffesiynol, ond mae angen gwneud gwelliannau o ran dogfennu canlyniadau adolygiadau amlddisgyblaethol.

Yn gyffredinol, gwelwyd arferion diogel mewn perthynas â rheoli'r broses o roi meddyginiaeth. Gwelsom fod angen gwella'r broses o gofnodi gwybodaeth yn siartiau'r Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth. Gwnaethom edrych ar ffeil feddyginiaeth un person a gwelsom ei bod yn cynnwys ffotograff ohono a manylion unrhyw alergeddau hysbys. Gwelsom fod pob cofnod rhoi meddyginiaeth wedi'i lofnodi gan y staff i ddangos pryd y rhoddwyd y feddyginiaeth. Serch hynny, gwelsom nad oedd y siart cofnod rhoi meddyginiaeth yn cynnwys dau gydlofnod gan aelodau o'r staff ar ddau achlysur wrth gofnodi a llofnodi meddyginiaeth y person â llaw. Ystyriwyd bod hyn yn faes i'w wella. Dywedodd y rheolwr wrthym y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn gyda'r staff. Ni welsom fod hyn wedi effeithio'n negyddol ar lesiant y person. Mae angen bod yn fwy gwyliadwrus wrth gwblhau siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth er mwyn sicrhau y dilynir y gweithdrefnau cywir.

3. Yr Amgylchedd

Crynodeb

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, sydd wedi cael budd o waith ailwampio. Mae eu hystafelloedd yn cynnwys eitemau personol ac maent yn cael cyfrannu at ddewis sut y caiff eu hystafelloedd eu haddurno. Cwblhawyd y gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol o fewn yr amserlenni gofynnol. Os yw'n berthnasol, mae angen i'r gwasanaeth ddilyn unrhyw argymhellion a wneir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a diogel sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Roedd y cartref yn ddiogel rhag mynediad diawdurdod pan wnaethom gyrraedd a gwnaeth y staff wirio ein dogfennau adnabod. Gofynnwyd i ni hefyd lofnodi'r llyfr ymwelwyr yn unol â'r gweithdrefnau diogelwch tân cyn cael taith o gwmpas yr adeilad. Gwelsom fod pob rhan yn lân, ac yn daclus ac yn cynnwys digon o le i ddiwallu anghenion y bobl. Roedd y cartref yn cynnwys dwy ystafell wely, ystafell ymolchi a lolfa/cegin/ardal fwyta gymunedol. Cawsom ein gwahodd i weld ystafell wely un person a gwelsom ei bod yn cynnwys ei eitemau personol. Dywedodd wrthym ei fod yn "very happy" gyda maint ei gartref a'r fordd roedd wedi'i addurno, a disgrifiodd fod yr ardal o gwmpas yn "nice and quiet". Dywedodd y person wrthym hefyd ei fod wedi cael ei wahodd i ddewis lliwiau'r paent ar gyfer y gwaith ailwampio a oedd wedi'i gynllunio a'i fod wedi dewis yr addurniadau yn y lolfa.

Roedd y lolfa, y gegin a'r ardal fwyta gymunedol yn lân, yn daclus ac yn rhydd rhag annibendod. Gwelsom fod gwiriadau o dymheredd bwyd, yr oergell a'r rhewgell yn cael eu cwblhau a'u cofnodi. Serch hyn, gwelsom bum achlysur pan nad oedd cofnodion o dymereddau bwyd, yr oergell a'r rhewgell wedi'u cwblhau, a hynny o fewn yr un mis. Ystyriwyd bod hyn yn faes i'w wella. Roedd yr ystafell ymolchi yn lân ac mewn cyflwr da. Gwelsom fod y staff yn glanhau'r gegin a'r ardal gymunedol yn ystod un o'n hymweliadau. Dywedodd y rheolwr a'r staff wrthym fod unrhyw faterion cynnal a chadw yn cael eu cyfeirio at adran cynnal a chadw'r cwmni er mwyn iddynt ymdrin â nhw. Serch hyn, ni welsom fod cynllun cynnal a chadw yn cael ei ddefnyddio i ddogfennu'r gwaith yr oedd angen ei wneud neu'r newidiadau cadarnhaol a wnaed i'r amgylchedd yn ffurfiol. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd gweld pryd yr oedd y gwaith wedi cael ei nodi, ei gofnodi a'i gwblhau. Gwnaethom drafod hyn gyda'r rheolwr a chawsom wybod cyn cwblhau'r adroddiad hwn fod llyfr cynnal a chadw bellach yn cael ei ddefnyddio.

Gwnaethom hefyd wirio sampl o gofnodion iechyd a diogelwch yn ymwneud â phrofi cyfarpar trydanol, y prawf trydanol bob pum mlynedd, diogelwch tân a oedd yn cynnwys cynlluniau personol y bobl ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEP), larymau, diffoddwyr tân a chwblhau driliau tân. Roedd y rhain wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol a dywedodd person a oedd yn byw yn y cartref wrthym fod y staff wedi trafod gweithdrefnau diogelwch tân a gwagio'r adeilad gyda nhw. Disgrifiodd y person y camau angenrheidiol yr oedd angen iddo eu cymryd pe bai tân. Serch hyn, gwelsom nad oedd y cartref yn cynnwys unrhyw oleuadau argyfwng a dim ond un pwynt mynediad ac allanfa a oedd gan yr adeilad. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod wedi trafod hyn yn flaenorol gydag adran cynnal a chadw'r cwmni er mwyn cael cyfarwyddyd pellach a'u bod wedi ymweld â'r safle. Yn dilyn ein trafodaeth, cysylltodd y rheolwr â nhw unwaith eto i geisio eglurhad

pellach. Cysylltodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) hefyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i roi gwybod am y sefyllfa a cheisio cyngor arbenigol pellach. Ystyriwyd gennym fod ceisio eglurhad clir ynghylch goleuadau argyfwng yn faes i'w wella. Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl ac i gyflawni ymdeimlad o lesiant.

4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

Mae gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau a darperir rhaglen sefydlu ffurfiol i'r staff. Mae gan y staff fynediad i amrywiaeth o hyfforddiant sy'n eu helpu yn eu rôl ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae angen gwneud gwelliannau o ran darparu lefel gyson o oruchwyliaeth, monitro'r lefelau staffio, defnyddio'r staff a chwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal.

Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn cael eu fetio'n ddiogel ac yn cwblhau cyfnod sefydlu ffurfiol. Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff, yn ogystal â'r prosesau cyflogi a sefydlu staff. Dywedodd y rheolwr a'r rheolwr ardal wrthym fod prif ffeiliau'r staff yn cael eu storio'n ddiogel yn adran Adnoddau Dynol y cwmni. Roedd modd i ni gael gafael ar y wybodaeth ar ddiwrnod yr arolygiad a gwelsom fod ffeiliau'r staff yn cynnwys ffurflen gais, hanes cyflogaeth a geirdaon gan gyflogwyr blaenorol. Cofnodwyd dyddiadau a rhesymau dros adael cyflogaeth flaenorol hefyd, ac oredd gan y cwmni ei adran recriwtio ei hun a oedd yn trafod aelodau newydd posibl o staff gyda rheolwr y cartref. Gwelsom hefyd fod Gwiriadau Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cwblhau, a'u bod yn gyfredol. Roedd rhaglen sefydlu ar waith ar gyfer staff newydd eu penodi, yn seiliedig ar ganllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru, ac roedd disgwyl iddynt gwblhau cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol os nad oeddent eisoes yn meddu arno. Roedd staff newydd eu penodi hefyd yn cwblhau sifftiau cysgodi gyda staff mwy profiadol a hefyd yn darllen polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd terfyn amser wedi'i roi yn hyn o beth. Dywedodd dau aelod o'r staff wrthym eu bod wedi mwynhau eu rhaglen sefydlu a'u bod o'r farn ei bod yn *"informative"* ac *"useful"*. Caiff gwiriadau cyn cyflogi eu cwblhau ac mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu cefnogi gan staff sydd wedi cwblhau cyfnod sefydlu ffurfiol ac sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod y staff yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a bod dros hanner y tîm o staff naill ai wedi ennill cymwysterau mewn gofal ar lefel dau neu uwch neu eu bod yn gweithio i ennill cymhwyster o'r fath. Dywedodd y staff wrthym fod yr hyfforddiant yn cynnwys cwblhau sesiynau ar-lein (e-ddysgu) a sesiynau *"hands on"* gyda darparwyr allanol. Gwelsom hefyd fod y staff yn gallu defnyddio canolfan hyfforddiant fewnol y cwmni a'u bod yn gallu cael hyfforddiant pwrpasol a oedd yn benodol i anghenion gofal a chymorth y bobl. Roedd y rheolwr yn goruchwyllo'r hyfforddiant a gwblhawyd gan y staff, a gwelsom fod y staff wedi cwblhau amryw bynciau gorfodol. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr yn rhoi gwybod iddynt pryd roedd angen iddynt adnewyddu/cwblhau eu hyfforddiant. Gwelsom hefyd fod y rheolwr wedi rhagarchebu sesiynau hyfforddi ar gyfer y staff â darparwyr allanol. Dywedodd pob aelod o'r staff y cawsom sgwrs ag ef ei fod yn cael hyfforddiant rheolaidd a oedd yn berthnasol i'w rôl. Roedd ymatebion y staff i ansawdd yr hyfforddiant yn amrywio, ac yn cynnwys *"okay"*, *"generally good"* a *"poor"*. Roedd cofnod hyfforddiant y staff yn dangos bod un aelod o'r staff wedi cwblhau 12 modiwl mewn un diwrnod a bod aelod arall o'r staff wedi cwblhau naw. Gyda'i gilydd, roedd wyth aelod arall o'r staff wedi cwblhau rhwng tri ac wyth modiwl mewn diwrnod. Cawsom drafodaeth am hyn â'r tîm rheoli a'r person cofrestredig, a ddywedodd y byddent yn adolygu'r sefyllfa. Ni welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl. Gwelsom fod angen ystyried ac adolygu pa mor ymarferol ydoedd i staff

gwblhau nifer o fodiwlau hyfforddi e-ddysgu mewn un diwrnod, a nodwyd hyn gennym fel maes i'w wella. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu cefnogi gan staff sy'n cael hyfforddiant amrywiol a rheolaidd.

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac mae cyswllt rheolaidd rhyngddynt â'r rheolwr. Clywsom bob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y cymorth yr oeddent yn ei gael gan y rheolwr. Roeddent yn siarad yn gadarnhaol amdano gan ddweud fod y rheolwr ar gael i drafod unrhyw waith neu faterion personol. Gwelsom y rheolwr yn rhyngweithio â'r staff mewn modd cyfeillgar a chadarnhaol, a gwelsom y staff yn trin y rheolwr â pharch. Dywedodd y staff y cawsom sgwrs â nhw fod y rheolwr yn *"approachable"* a *"lovely"*. Gwnaethant ddweud hefyd ei fod yn *"listens to me"*, *"resolves issues"* ac *"eisiau'r gorau i'r bobl"*. Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal, a'u bod yn cael cyfleoedd i drafod materion yn ymwneud â gwaith. Roedd y cofnodion goruchwylio ac arfarnu staff yn dangos bod y staff yn cael eu goruchwylio'n ffurfiol ac yn anffurfiol, ond nid oedd hyn bob amser yn digwydd yn chwarterol. Gwelsom hefyd nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau ei arfarniad blynyddol. Ni welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y staff, a chafodd y materion hyn eu hystyried yn feysydd i'w gwella. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael budd o wasanaeth lle mae'r staff yn cael eu cefnogi'n gyson, ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn darparu lefel gyson o oruchwyliaeth staff ffurfiol ac arfarniad blynyddol.

Mae angen monitro'r lefelau staffio'n barhaus er mwyn sicrhau bod nifer ddigonol o staff ar ddyletsydd. Cawsom olwg ar y rota staff a gwelsom fod y lefelau staffio ar ddiwrnodau'r arolygiad yn gyson â'r wybodaeth a roddwyd ac â chytundebau'r gwasanaethau comisiynu. Codwyd pryder gydag AGC fod person a oedd yn byw yn y cartref yn cael ei adael heb gymorth am gyfnodau hir o amser. Cawsom drafodaeth â pherson a oedd yn byw yn y cartref a dynnodd sylw at achlysur pan gafodd ei adael ar ei ben ei hun heb gymorth un i un am ran fawr o'r diwrnod. Gwelsom fod swyddog ar-alw'r gwasanaeth wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater ond na chafodd staff ychwanegol eu darparu tan yn ddiweddarach y prynhawn hwnnw. Dywedodd y person wrthym fod staff wedi ymweld ag e yn ystod y dydd a gwelsom fod hyn wedi'i ddogfennu. Dywedodd wrthym hefyd am achlysur arall pan fu'n rhaid iddo ddychwelyd yn gynnar o daith allan gan fod yn rhaid i'r staff ddychwelyd i weithio sifft mewn cartref arall. Dywedodd y person a oedd yn byw yn y cartref nad oedd hyn yn digwydd yn rheolaidd a'i fod wedi dweud wrth y rheolwr am y sefyllfa. Wrth drafod â'r rheolwr a'r rheolwr ardal daeth i'r amlwg eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa, a gwelsom dystiolaeth eu bod wrthi'n ceisio recriwtio aelod newydd o staff i swydd lawn-amser. Gwelsom hefyd fod aelodau newydd o staff wedi cael eu penodi, a gwelsom gyfweiliad yn cael ei gynnal yn ystod ein hymweliad. Ni welsom fod y mater wedi cael effaith negyddol ar lesiant y person. Wrth drafod â'r staff, clywsom eu bod yn gweithio oriau ychwanegol yn rheolaidd, ar ben eu horiau dan gontract, er mwyn sicrhau bod digon o staff ar bob sifft. Dywedodd y staff mai eu dewis nhw oedd hyn, a'u bod yn ei wneud am eu bod yn mwynhau eu gwaith ac am sicrhau bod y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu cefnogi. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod staff 'banc' yn aml yn cael eu defnyddio i lenwi sifftiau. Roedd y rota staff yn dangos bod un aelod o'r staff yn aros dros nos bob nos yn y cartref a oedd wedi'i leoli'n union oddi tanodd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gyfrifol am ddarparu cymorth i'r person yn y cartref a'u bod yn rhoi sylw i'w anghenion pe byddai'n galw arnynt. Dywedodd y staff nad oedd hyn yn digwydd yn aml. Fodd bynnag, pan oedd yn digwydd, roedd yn golygu bod yn rhaid iddynt adael yr eiddo am gyfnod byr er mwyn asesu'r sefyllfa a chadarnhau bod yr unigolyn yn iawn. Dywedodd y rheolwr a'r rheolwr ardal wrthym eu bod wedi cytuno ar y trefniant staffio dros nos cyfredol â'r gwasanaethau comisiynu.

Dywedodd y staff a'r rheolwr wrthym hefyd fod gweithdrefnau ar waith i gysylltu â'r unigolyn ar alwad yn y gwasanaeth i ddarparu cymorth ar ffurf staff ychwanegol os oedd angen. Mae AGC yn argymhell yn gryf y dylid parhau i fonitro'r lefelau staffio'n agos. Mae angen i'r person cofrestredig barhau i sicrhau bod niferoedd digonol o staff ar bob sifft, a bod y staff yn cael eu lleoli'n briodol er mwyn sicrhau bod y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael lefel gyson o oruchwyliaeth a chymorth.

Nid oes gan y gwasanaeth adroddiad cyfredol ar ansawdd y gofal. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi diweddarau ei ddatganiad o ddiben yn ddiweddar, ac wedi cynnwys manylion cyswllt AGC. Gwelsom hefyd fod gan y gwasanaeth brosesau monitro ansawdd ar waith. Ni allai'r rheolwr ddarparu adroddiad i ni a gwblhawyd gan y person cofrestredig. Dywedodd wrthym nad oedd y person cofrestredig wedi ymweld â'r safle, a chadarnhawyd hyn gan y staff hefyd. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym nad oedd yn gwybod pwy oedd y person cofrestredig. Er gwaethaf hyn, gwelsom fod ymweliadau monitro ansawdd wedi cael eu cwblhau gan eu bod wedi cael eu dirprwyo i aelodau eraill o'r cwmni. Gwelsom fod y rheolwr ardal yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, a dywedodd wrthym ei fod yn cyflwyno ei ganfyddiadau i'r person cofrestredig ar lafar ac yn ysgrifenedig. Gwelsom hefyd fod yr ymweliadau a'r adroddiadau mewn perthynas ag Adolygu Cydymffurfiaeth, Adolygu Trefniadau Monitro a Chynllun Gwella'r Gwasanaeth yn cael eu cwblhau gan reolwr cydymffurfiaeth y cwmni. Siaradodd y staff yn gadarnhaol am y rheolwr ardal, gan ddweud ei fod yn ymweld â'r safle'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr ac aelodau o'r tîm uwch-reolwyr yn cymryd camau cadarnhaol i wella'r gwasanaeth mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, hyfforddiant staff ac amgylchedd y cartref. Yn ystod yr arolygiad, cawsom ddogfen a oedd yn dyddio'n ôl i 2016, a oedd yn dangos bod ymatebion i holiaduron wedi'u cael gan bobl a oedd yn byw yn y cartref. Dywedodd y rheolwr a'r rheolwr ardal wrthym fod holiaduron pellach wedi cael eu dosbarthu a'u cwblhau ers hynny, ond nad oedd y wybodaeth wedi cael ei chasglu na'i chrynhoi mewn adroddiad. Hefyd, dywedodd un o'r bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff wrthym fod y rheolwr wedi gofyn iddynt yn ddiweddar am eu barn am y gwasanaeth. Er gwaethaf hyn, a'r ffaith bod prosesau monitro ansawdd ar waith, nid oedd adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei lunio. Roedd hyn yn golygu na allai'r gwasanaeth ddangos sut yr oedd yn cyflawni, yn adolygu nac yn myfyrio ar nodau a chanlyniadau cadarnhaol i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Roedd y ffaith nad oedd adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei lunio hefyd yn golygu nad oedd unrhyw dystiolaeth o'r cynnydd cadarnhaol a wnaed gan y tîm rheoli. Hefyd, ni welsom fod barn cynrychiolwyr y bobl na'r gwasanaethau comisiynu wedi cael ei chasglu fel rhan o'r broses o adolygu ansawdd y gofal. Gwelsom nad oedd y person cofrestredig yn bodloni'r gofynion rheoliadol yn llawn mewn perthynas â chwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal. Ni chyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio ffurfiol ar yr achlysur hwn gan na welsom fod y mater wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na'r gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu cael. Mae AGC yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn cyn gynted â phosibl. Mae cais wedi'i wneud am gopi o'r adroddiad pan fydd wedi'i gwblhau, a bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus hyd nes y bodlonir y gofynion. Nid yw'r gwasanaeth wedi dangos yn llawn ei fod yn gosod safonau uchel mewn perthynas â chyflwyno dystiolaeth ffurfiol o welliant parhaus na dangos sut mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gwella'r gwasanaeth mewn adroddiad ar ansawdd y gofal.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim.

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym wedi cynghori'r person cofrestredig yn gryf fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r canlynol er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn:

- Rheoliad 25 (1) (a), (2) a (3) mewn perthynas ag adolygu ansawdd y gofal.

Ni chyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio ffurfiol ar yr achlysur hwn gan na welsom fod y mater wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na'r gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu cael. Mae AGC yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i unioni'r mater.

Dyma'r meysydd i'w gwella a argymhellir er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol pellach i bobl:

- Rydym yn argymhell yn gryf fod asesiadau risg yn cael eu monitro'n gyson ac yn cynnwys manylion penodol a chanllawiau i'r staff eu dilyn er mwyn lleihau'r risgiau a nodwyd cymaint â phosibl.
- Dylid cofnodi'r cyfarfodydd adolygu amlddisgyblaethol a gynhelir, a dylai cynnwys y cyfarfod a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt gael eu cofnodi a dylid sicrhau eu bod ar gael i'w gweld.
- Mae angen i'r staff fod yn fwy gwylidwrus wrth lofnodi siartiau'r Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth er mwyn sicrhau bod pob cofnod yn cael ei gwblhau'n gywir. Mae angen i siartiau'r Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth hefyd gynnwys gwrthlofnodion dau aelod o'r staff ar gyfer presgripsiynau a ysgrifennwyd â llaw.
- Cofnodi tymereddau'r bwyd yn gyson bob dydd.
- Cofnodi tymereddau'r oergell a'r rhewgell yn gyson bob dydd.
- Adolygu a chadarnhau'r sefyllfa mewn perthynas â goleuadau argyfwng a gwneud unrhyw newidiadau a argymhellwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- Adolygu pa mor ymarferol ydyw i staff gwblhau nifer o fodiwlau hyfforddi e-ddysgu ar yr un diwrnod, ynghyd â manteision hynny.
- Dylai pob aelod o'r staff gael ei oruchwylio'n ffurfiol bob chwarter, a chwblhau arfarniad blynyddol sy'n rhoi adborth iddo ar ei berfformiad ac yn nodi meysydd lle mae angen cyfleoedd hyfforddi a datblygu, er mwyn ei helpu i gyflawni ei rôl.
- Rydym yn argymhell yn gryf y dylid parhau i fonitro'r lefelau staffio'n agos er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol o staff ar bob sifft, a bod y staff yn cael eu lleoli'n briodol er mwyn sicrhau bod y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael lefel gyson o oruchwyliaeth a chymorth.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd arolygiad arferol dirybudd gennym ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn y cartref ar 26 Chwefror 2019 rhwng 09:20 am a 18:30 pm ac ar 27 Chwefror 2019 rhwng 08:30 am a 19:25 pm. Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad ag un person a oedd yn byw yn y cartref, y rheolwr, y rheolwr ardal, a dau aelod o'r staff gofal.
- Gwelsom un ystafell wely, ystafell ymolchi a'r lolfa/cegin/ardal fwyta.
- Gwelsom amrywiaeth eang o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar gofnodion gofal un unigolyn, ffeiliau tri aelod o'r staff, dogfennau sicrhau ansawdd, cofnodion ar gyfer cyfarfod staff, cofnodion meddyginiaeth, hyfforddiant staff, goruchwyliaeth staff, y datganiad o ddiben, y polisïau cwyno, chwythu'r chwiban a diogelu a detholiad o gofnodion iechyd a diogelwch yn ymwneud â diogelwch tân ac eitemau trydanol.
- Cawsom sgwrs dros y ffôn â Swyddog Cydymffurfiaeth Diogelwch Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 5 Mawrth 2019.
- Trafodwyd yr argymhellion â'r rheolwr ar ddiwrnodau'r arolygiad.
- Cawsom sgwrs dros y ffôn â'r rheolwr ardal ar 07 Mawrth 2019.
- Cawsom gyfarfod â'r person cofrestredig ar 11 Mawrth 2019 yn Swyddfa Arolygiaeth Gofal Cymru yng Nghyffordd Llandudno.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Cartref Gofal i Oedolion - Iau
Person Cofrestredig	Prestwood Residential Homes Ltd
Rheolwr	Mae'r unigolyn a benodwyd i reoli'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	2
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	28 Mehefin 2018
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	26 Chwefror 2019 a 27 Chwefror 2019
Iaith weithredol y gwasanaeth	Saesneg
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog
Gwybodaeth Ychwanegol:	